Cofnodion Cyfarfod Cyswllt Partneriaeth Niwbwrch

7 – 9 pm Dydd Mercher 1 Chwefror 2006, Ysgol Niwbwrch

Pwrpas y cyfarfod

- Gwirio cynnydd y grwpiau gorchwyl a gorffen, a datrys unrhyw faterion sy'n codi
- Creu rhestr hir o feini prawf posibl i'w 'profi' yn erbyn dewisiadau sy'n codi
- Ystyried sut i wella cysylltu ac ymgynghori o hyn ymlaen

Crynodeb o ganlyniadau'r cyfarfod
(i'w ddefnyddio gan y grŵp Ymrwymiad y Gymuned a Phartneriaethau ac holl aelodau'r bartneriaeth gyswllt i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'w 'hetholaethau')

Mae pob grŵp Gorchwyl a Gorffen yn parhau i wneud cynnydd wrth ddatblygu'r amrywiaeth o ddewisiadau ar gyfer dyfodol y Goedwig a'r Tywyn. Dechreuodd y Bartneriaeth Gyswllt ystyried y meini prawf posibl ar gyfer asesu dewisiadau i weld pa rai, os o gwbl, y cytunir arnynt gan holl aelodau'r Bartneriaeth Gyswllt. Mae angen gwneud mwy o waith ar y rhain.

Trafododd y Bartneriaeth Gyswllt hefyd bwysigrwydd cyfathrebu a chysylltu, a sefydlwyd grŵp newydd i oruchwylio casglu barnau ac ymgynghori o hyn ymlaen. Mae adran y Bartneriaeth ar wefan y CC wedi cael ei hailwampio, ac mae nawr yn cynnwys y crynodebau a sylw yn y wasg. Mae'n rhaid i bob aelod o'r Bartneriaeth Gyswllt chwarae ei ran i ledaenu'r neges ac mae'n rhaid i ni adolygu sut yn y cyfarfod nesaf.

Bydd cyfarfod nesaf y Bartneriaeth Gyswllt ddydd Llun 13 Mawrth 2006 yn Ysgol Niwbwrch.

Cyswllt: Robert Williams, robert.williams@forestry.gsi.gov.uk, 07775818958

Yn bresennol yn y cyfarfod:

Cyfranogwyr: Lindsey Colbourne (hwylusydd annibynnol), Kate Evans (Preswylwyr Dwyran), Anne Harrington-Rees (Newyddion Niwbwrch), Simon Hunt (Cyngor Sir Ynys Môn), Hefin Lloyd Roberts (Cerddwyr Ynys Môn), Wil Sandison (Cyngor Cefn Gwlad Cymru), John Tripp (Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig), Michael Webb, Liz Webb (Newyddion Niwbwrch), Robert Williams (Comisiwn Coedwigaeth Cymru), Chris Edwards (Comisiwn Coedwigaeth Cymru), Catrin Ellis (hwylusydd annibynnol), Rita Farrall (Grŵp Cadwraeth Coedwig Niwbwrch), Elinor Gwynn (Cyngor Cefn Gwlad Cymru), Ann Hesson (Grŵp Cadwraeth Coedwig Niwbwrch), Martin Hollingham (hydroleg), Laurence Jones (Y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg), Nellie Jones (Sefydliad y Merched Niwbwrch), Elizabeth Llanddwyn Jones (Preswylwyr â diddordeb yn Ynys Llanddwyn), Alwyn Jones (Cyngor Cymuned Rhosyr), Hugh Knott (Menter Môn), Jon Levell (Comisiwn Coedwigaeth Cymru), Delyth Owen (Barnardos), Maureen Parry-Williams (Cymdeithas Marchogwyr Traeth Rhosyr), Chris Wynne (Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt), Dominic Insham, Helena Burrows (Clwb Cyfeiriannu Eryri), Kath McNulty (cydlynydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru)

Ymddiheuriadau: Barbara James (Clybiau ac Ysgolion Dringo yr ochr arall i Afon Menai), Simon a Pat Parker, John Ratcliffe (Cyngor Cefn Gwlad Cymru)

Penderfyniad	Gweithred	Pwy	Pryd
Croesawir y wefan newydd	Rheoli'r wefan a'i diweddaru	Nicky	Yn barhaus
Gosod hysbysiad ar hysbysfwrdd maes parcio'r preswylwyr ynglŷn â'r gwaith iechyd a diogelwch yn y Goedwig	Robert i gysylltu â Liz	Rob i gysylltu â Liz	Erbyn Dydd Gwener 3 Chwefror
Ystyried sawl cyfarfod arall y bydd eu hangen i weithio trwy'r dewisiadau	I'w drafod yn y cyfarfod nesaf	Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cynefinoedd a Rhywogaethau	Cyfarfod nesaf
Os oes materion newydd/eraill yn codi wrth orffen y gwaith ar ddewisiadau, rhaid ceisio delio â nhw	Cwblhau'r set gyntaf o ddewisiadau erbyn Gwanwyn 2006, a delio gyda materion newydd yn ôl y weithdrefn ganlynol: 1) esbonio'r broses dewisiadau i'r cynigydd 2) didoli cyflym – y grŵp G a G priodol 3) annog y cynigydd i roi'r mater drwy'r grid	Pob grŵp G a G	O nawr hyd at Wanwyn 2006
Ystyried sut i ddelio â materion newydd yn y tymor hir	Angen set o reolau ynglŷn â sut i ddelio â materion newydd	Grŵp Ymrwymiad y Gymuned a Phartneriaethau	Yn barhaus
Canolfan Ddehongli - angen penderfynu a ddylid ystyried yn ôl y grid dewisiadau ai peidio?	Anne i drafod gyda Michael a Kath, ac ystyried y wybodaeth yn yr "astudiaeth dichonoldeb"	Anne, Michael, Kath	Y mis hwn
A wnewch chi ddal gafael ar erthyglau am PG Niwbwrch a Choedwig a Thywyn Niwbwrch sy'n ymddangos yn y wasg	Rhowch wybod i Anne neu Liz os oes gennych chi erthygl felly a chaniatewch iddyn nhw archifo copi os oes angen	Pawb	Yn barhaus
Gwnewch grynodeb byr, sy'n hawdd i'w ddeall o'r gwaith a wneir gan eich grŵp ym mhob cyfarfod G a G	Ar ddiwedd pob cyfarfod	Pob grŵp G a G	Pob cyfarfod
Rhaid i bob aelod o'r Bartneriaeth Gyswllt ddeall y trefniadau cyfathrebu cyfredol	Copi o'r tabl cyfathrebu i'w gynnwys yng nghofnodion y cyfarfod hwn, i'w ddosbarthu	Kath	Wrth ddosbarthu'r cofnodion i aelodau, ac ar y wefan etc.
Sicrhau bod Helena wedi'i chynnwys ar y rhestr bostio	Rhannu manylion cyswllt	Helena a Kath	01.02.06
Sefydlu grŵp G a G i edrych ar ymgynghori	Cofrestru heno	Pawb sydd â diddordeb	01.02.06
Cyfarfod nesaf y Bartneriaeth Gyswllt i gynnwys: - adolygu'r meini	Mynychu	Pawb	13 Mawrth 2006

prawf - adolygu sut mae aelodau'r bartneriaeth yn cyfathrebu â'r 'etholaethau'			

Pa feini prawf fyddech chi'n eu hawgrymu y dylid eu defnyddio wrth asesu a yw'r dewis yn ddichonadwy/dymunol ai peidio?

Yn y dasg hon, ystyriodd aelodau'r Bartneriaeth Gyswllt pa feini prawf y byddent yn eu hawgrymu ar gyfer didoli'r dewisiadau, i'w lleihau yn nifer mwy hydrin. Crëwyd rhestr hir o'r holl syniadau, a rhoddwyd dotiau lliw i aelodau'r grŵp i ddangos pa awgrymiadau yn arbennig yr oeddent yn cefnogi'n gryf (gellid dangos hyd at 4) neu ddim yn cefnogi (gellid dangos hyd at ddau). Mae'r canlyniadau yn mynegi'r teimlad yn yr ystafell ynglŷn â pha feini prawf gallai fod yn ddefnyddiol ai peidio. Mae angen gwneud mwy o waith i fireinio'r rhestr hon.

Sylwer: Aildrefnwyd y meini prawf hyn i ddangos lefel y gefnogaeth am eu defnyddio.
Sylwer: Nodwyd ar ôl y cyfarfod y gall rhai meini prawf gael lefelau uwch o gefnogaeth o'u gwrthdroi - felly ni chafodd 'yn cael ei gefnogi gan y cyhoedd' lawer o gefnogaeth, ond gallai 'nid yw'n achosi protest gyhoeddus' fod wedi cael llawer mwy o gefnogaeth.

Y meini prawf a awgrymir ar gyfer asesu'r dewisiadau	**Yr ateb gofynnol byddai** – (negatif) neu + (positif)	**Byddwn yn cefnogi** defnyddio hwn	**Ni fyddwn yn cefnogi** defnyddio hwn
Cefnogwyd			
A yw'n cyflawni amcanion y bartneriaeth (cynaliadwy)	+	18	0
A yw'n cael effaith andwyol ar yr amgylchedd	-	13	0
A yw'n rhoi mantais economaidd i'r gymuned leol	+	7	0
A yw'n diogelu'r cyfleusterau cyfredol	+	7	0
A yw'n ychwanegu gwerth at neu a yw'n gydnaws â defnyddiau derbyniol eraill	+	7	0
A yw'n creu cyfleoedd addysgol	+	7	0
A yw'n cael effaith sylweddol negyddol ar ansawdd bywyd (e.e. llygredd sŵn, gwynt yn chwythu)	-	6	0
A yw wedi'i brofi, ac a yw'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn	+	5	0
A yw'n galluogi rheoli risgiau	+	3	0
A yw'n golygu gweithredoedd a allai fod yn niweidiol yn yr ystyr dechnegol (e.e. Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA))	-	2	0
A yw'n cyfyngu ar fynediad neu a yw wedi'i gyfyngu gan hawliau mynediad sydd eisoes yn bodoli	-	1	0
Ydy'r cyhoedd yn debygol o'i dderbyn	+	1	0
Cefnogaeth gymysg			
A yw'n gyfreithiol yn nhermau iechyd a diogelwch ac ati	+	4	1
A yw'n hygyrch i bob grŵp oedran, galluoedd a diddordebau	+	5	4
A yw'n gwella cyfleoedd hamdden	+	3	2
A yw'n hyfyw yn economaidd	+	2	2
A yw'n gyson ag is-ddeddfau	+	1	4
A yw'n cydymffurfio â pholisi cynllunio lleol	+	2	8
A yw'n rhy gymhleth, yn cynnwys gormod o jargon, yn creu biwrocratiaeth	-	3	9

Ni chefnogwyd			
A yw'n bosibl ei wneud yn rhywle arall	?	0	2
A oes ganddo strategaeth gadael	+	0	5
A yw'n rhwystro dewisiadau eraill yn y dyfodol (hy eu rhwystro nhw rhag bod yn bosibl)	-	0	4
A oes modd ei gyflawni ar unwaith	+	0	4
A yw'n gwneud i'r CC 'eistedd ar y ffens'	-	0	5
A yw'n un na fyddai CCGC yn ei hoffi	-	0	7

Amserlen at y dyfodol (nodyn atgoffa)

Y gwaith y mae angen ei wneud	**Erbyn pryd?**
Gwella cyfathrebu o fewn y bartneriaeth gyswllt, ac â'r gymuned leol	Ar unwaith ac yn barhaus

Cwblhau'r gwaith ar ddewisiadau yn y **grwpiau gorchwyl a gorffen**
- Gweithio drwy'r gridiau i gwblhau'r gwaith ar ddewisiadau, gan sicrhau cwblhau gwaith ar fanteision ac anfanteision
- Cynnal unrhyw waith ar wybodaeth, barn a ffeithiau sydd ei angen i fod yn siŵr o'r dewisiadau, a diweddaru'r dewisiadau yn unol â hynny
- Cofnodi unrhyw wybodaeth ategol ar gyfer pob dewis
- Rhesymoli unrhyw ddyblygu o fewn y dewisiadau
- Ystyried, fel grŵp, a oes unrhyw ddewisiadau y gallai pawb yn y grŵp eu cefnogi (byw gyda nhw), ac a yw'r gefnogaeth honno'n amodol ai peidio (e.e. Byddwn yn ei gefnogi pe bai…)
- Nodi unrhyw wrthdrawiadau o bwys a'r hyn sydd y tu cefn iddynt
- Llunio argymhellion i'r bartneriaeth gyswllt ynghylch:
  - Y dewisiadau i'w rhoi gerbron
  - Penderfyniadau allweddol neu faterion dadleuol y mae angen eu datrys
	Hyd at wanwyn 06

Y bartneriaeth gyswllt i edrych ar y dewisiadau a gynigir, dileu unrhyw ddyblygu a dwyn ynghyd 'senarios' dichonadwy posibl ar gyfer y goedwig a'r tywyn yn y dyfodol. Byddai hyn yn cynnwys cytuno ar set o feini prawf ar gyfer asesu dichonolrwydd y dewisiadau, a'u defnyddio.	Gwanwyn 06
Ymgynghori ar y senarios, gan gynnwys esbonio pa ddewisiadau sydd heb gael eu cynnwys a pham. Ymgynghori i ddarganfod y dewisiadau sydd orau gan bawb, pa anfanteision nad ydynt yn dderbyniol ac ati.	Gwanwyn/Haf 06
Y bartneriaeth gyswllt i ystyried canlyniadau'r ymgynghori a gwneud argymhellion ar y dewis gorau ar gyfer yr ardal. Bydd hyn yn cynnwys ceisio trafod â chyrff perthnasol a allai helpu i ddatblygu'r syniadau.	Hydref 06
Cyrff priodol i ymgymryd â'r gwaith (e.e. y Comisiwn Coedwigaeth ar y Cynllun Dylunio Coedwigoedd). Gellir gwneud hyn mewn ymgynghoriad â'r grŵp gorchwyl a gorffen priodol a/neu'r bartneriaeth gyswllt.	Hydref/Gaeaf 06
Gweithredu a monitro, gan gynnwys penderfynu ar rôl y bartneriaeth	Hydref 06

gyswllt yn y dyfodol…	ymlaen